# Public Document Pack

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Powys

Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth
Mid Wales Corporate Joint Committee

Meeting Venue

Meeting Date
**Monday, 4 July 2022**

Meeting Time
**11.00 am**

For further information please contact
**nicola.williams@powys.gov.uk**
julie.williams2@powys.gov.uk

Issue Date

## AGENDA

| 6. | **ADOPTION OF A CONSTITUTION FOR THE MID WALES CORPORATE JOINT COMMITTEE / MABWYSIADU CYFANSODDIAD AR GYFER CYDBWYLLGOR CORFFORAETHOL CANOLBARTH CYMRU** |
|---|---|

Clive Pinney, Monitoring Officer to present report on the Constitution of the Mid Wales CJC / Clive Pinney, Swyddog Monitro i gyflwyno adroddiad ar y Cyfansoddiad i CJC Canolbarth Cymru
(Pages 3 - 8) Welsh Language version of the Report

| 7. | **APPOINTMENT OF CO-OPTEES TO SUB-COMMITTEES OF THE MID WALES CJC / PENODI AELODAU I IS-BWYLLGORAU CYDBWYLLGOR CORFFORAETHOL CJC** |
|---|---|

Clive Pinney, Monitoring Officer to present report on the Appointment of Co-Optees to Sub-Committees of the Mid Wales CJC / Clive Pinney, Swyddog Monitro i gyflwyno adroddiad are Benodi Aelodau Cyfetholedig i Is-Bwyllgorau CJC Canolbarth Cymru
(Pages 9 - 14) Welsh Language version of the Report

This page is intentionally left blank

**CYD-BWYLLGOR CORFFORAETHOL CANOLBARTH CYMRU**

**4ydd Gorffennaf 2022**

**ADRODDIAD Y SWYDDOG MONITRO**

**Teitl yr Adroddiad: Mabwysiadu Cyfansoddiad ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru**

| | |
|---|---|
| **Pwrpas yr Adroddiad** | Mabwysiadu Cyfansoddiad Cyd-Bwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru |
| **Y Penderfyniad a Geisir:**<br><br>**Argymhellir bod yr Aelodau'n:**<br><br>• Mabwysiadu'r Cyfansoddiad ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad<br>• Dirprwyo'r pŵer i'r Swyddog Monitro wneud mân newidiadau golygyddol os bydd angen ) i'r Cyfansoddiad i'w gyhoeddi ar wefan y Cyd-bwyllgor Corfforaethol.<br>• Ei gwneud yn ofynnol i'r Cyfansoddiad a gymeradwywyd o dan argymhelliad 1 gael ei gyfieithu i'r Gymraeg a'i gyhoeddi ar wefan y Cyd-bwyllgor Corfforaethol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.<br>• Gohirio'r gwaith o greu'r Is-bwyllgor Llesiant Economaidd (Bargen Twf Canolbarth Cymru) tan gyfarfod o'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru yn y dyfodol er mwyn galluogi Trysorlys EM i roi Gorchymyn ar waith i ganiatáu i bedwar Cyd-bwyllgor Corfforaethol Cymru gael eu derbyn i gynllun ad-daliad TAW Adran 33. | |
| **Awdur yr Adroddiad** | Clive Pinney |
| **Swyddog Cyllid** | Stephen Johnson (Swyddog Adran 151) |
| **Swyddog Cyfreithiol** | Clive Pinney (Swyddog Monitro) |

**Cefndir:**

- Creodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("Deddf LGE") y fframwaith ar gyfer mecanwaith cyson i gydweithredu rhanbarthol rhwng awdurdodau lleol drwy Gyd-bwyllgorau Corfforaethol.. Mae'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau yn darparu ar gyfer sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforaethol Canolbarth Cymru drwy Reoliadau ac yn ei gyfarfod cyntaf ar 25ain Ionawr 2022/23, sefydlwyd y Cyd-bwyllgor Corfforaethol, cymeradwywyd cyllideb ar gyfer 2022/23 a

chymeradwywyd Rheolau Sefydlog y byddai Cyfansoddiad ffurfiol yn cymryd eu lle maes o law.

- Pwrpas yr adroddiad hwn yw i'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol ystyried i'w gymeradwyo Gyfansoddiad drafft wedi'i ddrafftio gan y Swyddog Monitro mewn ymgynghoriad â Swyddogion Monitro Cyngor Sir Ceredigion ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

- Ystyried argymhelliad y dylid gohirio'r gwaith o greu'r Is-bwyllgor Llesiant Economaidd (Bargen Twf Canolbarth Cymru) tan gyfarfod o'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol yn y dyfodol er mwyn galluogi Trysorlys EM i roi Gorchymyn ar waith i ganiatáu i bedwar Cyd-bwyllgor Corfforaethol Cymru gael eu derbyn i gynllun ad-dalu TAW Adran 33.

<u>Y Cyfansoddiad Drafft</u>

- Mae'r Cyfansoddiad drafft yn seiliedig ar Gyfansoddiad Model Newydd diwygiedig ar gyfer Awdurdodau Lleol Cymru a ddarparwyd gan Gyfreithwyr Browne Jacobson ym mis Rhagfyr 2021 ar gost CLILC sydd wedi'i ddiwygio fel y bo'n briodol i'w wneud yn addas ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru.

- Bydd y Cyfansoddiad (os bydd yn cael ei gymeradwyo a'i fabwysiadu gan y Cyd-bwyllgor Corfforaethol) yn cael ei fonitro a'i adolygu'n gyson gan Swyddogion a bydd diwygiadau i'r Cyfansoddiad yn cael eu cyflwyno'n ôl i'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol i'w hystyried a/neu eu cymeradwyo yn ôl yr angen.

- Yn ei hanfod, mae'r Cyfansoddiad yn nodi strwythur cyffredinol y Cyd-bwyllgor Corfforaethol a'i is-bwyllgorau amrywiol fel y gellir gwneud penderfyniadau allweddol.

- Pwrpas y Cyfansoddiad yw:

- darparu fframwaith ar gyfer llywodraethu da;

- galluogi penderfyniadau i gael eu gwneud yn effeithlon ac effeithiol;

- creu dull pwerus ac effeithiol o ddwyn penderfynwyr i gyfrif cyhoeddus;

- sicrhau na fydd neb yn adolygu nac yn craffu ar benderfyniad roeddent yn ymwneud yn uniongyrchol ag ef;

- sicrhau bod y rhai hynny sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau yn hawdd i bobl leol eu hadnabod a'u bod yn esbonio'r rhesymau dros benderfyniadau; a

- darparu dull o wella darpariaeth gwasanaeth i'r gymuned.

- Ynghlwm yn **Atodiad 1** mae cyfansoddiad arfaethedig y Cyd-bwyllgor Corfforaethol i aelodau ei ystyried a'i fabwysiadu ac mae'n cynnwys adrannau sy'n ymdrin â'r canlynol:

| Adran | Teitl |
|---|---|
| 01 | Rhagymadrodd |
| 02 | Dehongliad Diffiniad Pwrpas |
| 03 | Cael Gwybodaeth a Chymryd Rhan |
| 04 | Rheolau Gweithdrefn CJC |
| 05 | Is-Bwyllgorau |
| 06 | Swyddogion |
| 07 | Cynllun Dirprwyo |
| 08 | Rheolau Gweithdrefn Mynediad at Wybodaeth |
| 09 | Cod Ymddygiad |
| 10 | Cyllid, Cyllideb a Chaffael |
| 11 | Contractau a materion cyfreithiol |
| 12 | Rheolau Gweithdrefn Contractau |
| 13 | Indemniadau i Aelodau a Swyddogion |

- Nid yw'r Cyfansoddiad Drafft wedi'i gyfieithu i'r Gymraeg eto, ond unwaith y bydd wedi'i gymeradwyo a'i fabwysiadu, bydd yn cael ei gyfieithu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol a'i gyhoeddi ar wefan y Cyd-bwyllgor Corfforaethol.

**Oedi cyn gweithredu'r gwaith o greu'r Is-bwyllgor Llesiant Economaidd (Bargen Twf Canolbarth Cymru)**

10.1 Dylid ei gwneud yn ymwybodol bod pob Cyd-bwyllgor Corfforaethol yng Nghymru a Llywodraeth Cymru'n bryderus nad yw pob Cyd-bwyllgor Corfforaethol ar hyn o bryd yn gallu adennill y TAW a dynnir ar weithgareddau nad ydynt yn ymwneud â busnes, fel y mae pob Awdurdod Lleol arall. Mae LlC a'r Cynghorau wedi bod yn lobïo Trysorlys EM bod gan Gyd-bwyllgorau Corfforaethol yr un hawl â chyrff cyhoeddus eraill ac mae Trysorlys EM wedi cyhoeddi'n ddiweddar y byddant yn gwneud Gorchymyn i ganiatáu i bedwar Cyd-bwyllgor Corfforaethol Cymru gael eu derbyn i gynllun ad-dalu TAW Adran 33. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd y Gorchymyn mewn grym cyn yr hydref ac mae'r Trysorlys wedi'i gwneud yn glir na ellir cymhwyso'r Gorchymyn yn ôl-weithredol cyn y dyddiad y gwnaethpwyd y Gorchymyn.

10.2 Oherwydd yr anfantais o ran TAW i'r Cynghorau a'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol pe bai'r Is-bwyllgor Llesiant Economaidd (Bargen Twf Canolbarth Cymru) yn cymryd rôl Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru, argymhellir y dylid gohirio'r gwaith o greu'r Is-bwyllgor Llesiant Economaidd (Bargen Twf Canolbarth Cymru) tan gyfarfod o'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol yn y dyfodol er mwyn galluogi Trysorlys EM i roi Gorchymyn ar waith i ganiatáu i bedwar Cydbwyllgor Corfforaethol Cymru gael eu derbyn i gynllun ad-dalu TAW Adran 33 .

**Effeithiau Ariannol:**

11. Bydd effeithiau ariannol mabwysiadu'r Cyfansoddiad hwn a dogfennau cysylltiedig yn cael eu hymgorffori yng nghyllideb flynyddol Cyd-bwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru

**Asesiad Effaith Integredig:**

12. Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol yn ddarostyngedig i'r Ddeddf Cydraddoldeb (Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Mesur y Gymraeg (Cymru), ac mae'n rhaid iddo wrth arfer eu swyddogaethau, roi sylw dyledus i'r angen i:

- Ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ac ymddygiad arall a waherddir gan y Deddfau.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.
- Sicrhau canlyniadau gwell i'r bobl hynny sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol
- Ystyried cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain.

13. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru gyflawni datblygu cynaliadwy. Mae datblygu cynaliadwy yn golygu'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy gymryd camau, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gyda'r nod o gyflawni'r 'nodau llesiant'.

14. Nid oes angen Asesiad Effaith Integredig ar gyfer yr adroddiad hwn gan fod deddfwriaeth yn sail i sefydlu'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol a bod yr adroddiad hwn i sefydlu trefniadau llywodraethu yn unol â deddfwriaeth. Bydd yn cael ei adolygu'n barhaus gydag unrhyw adroddiadau yn y dyfodol yn ystyried a fydd angen ystyried effeithiau.

**Effeithiau ar y Gweithlu:**

15. Nid oes unrhyw effeithiau ar y gweithlu yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

**Effeithiau Cyfreithiol:**

16. Mae Rhan 5 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau yn darparu ar gyfer sefydlu, drwy reoliadau, Gyd-bwyllgorau Corfforaethol a bydd cydymffurfiad â hyn a rhwymedigaethau deddfwriaethol eraill wrth sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforaethol. Yn benodol, daeth Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru i rym ar 1af Ebrill 2021 gan nodi fframwaith cychwynnol, er enghraifft, y dylid sefydlu'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol a'r amserlenni ar gyfer cyflawni swyddogaethau penodol. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn drafftio cyfres o Reoliadau pellach ac yn ymgynghori arnynt. Mae Llywodraeth Cymru wedi cwblhau ei hymgynghoriad ar Reoliadau Cydbwyllgorau Corfforaethol (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021. Mae Llywodraeth Cymru hefyd ar hyn o bryd yn ymgynghori ar ganllawiau statudol drafft. Bydd trydydd cam y Rheoliadau yn rhoi deddfwriaeth bellach ar waith ar gyfer gweithredu'r Cyd-bwyllgorau Corfforaethol a'u swyddogaethau, y mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori arnynt ar hyn o bryd. Bydd pedwerydd cam yn rhoi unrhyw ddarpariaethau sy'n weddill ar waith y gallai fod eu hangen ar Gyd-bwyllgor Corfforaethol.

**Effeithiau Rheoli Risg:**

17. Mae methu â chyfansoddi'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol yn golygu na fydd y Cyd-bwyllgorau Corfforaethol yn gallu gwneud unrhyw benderfyniadau, gan gynnwys gosod cyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/2023 ac yn unol â hynny byddai'n torri'r gofynion cyfreithiol a osodwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (yn amlygu pob cyngor cyfansoddol ac awdurdod parc cenedlaethol i herio) ynghyd â'r risgiau i enw da yn sgil diffyg cydymffurfio o'r fath.

**Ymgynghori:**

18. Nid oes angen ymgynghori ynghylch yr adroddiad hwn.

**Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig:**

19. I sicrhau bod trefniadau llywodraethu priodol yn eu lle i'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol wneud penderfyniadau ac y ceir cydymffurfio â'r gofynion deddfwriaethol sy'n berthnasol i'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol.

**Gweithredu'r Penderfyniad:**

20. Cynigir gweithredu'r penderfyniad hwn ar unwaith

**Atodiadau:**

21. Atodiad 1 - Cyfansoddiad Drafft ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru

**CYDBWYLLGOR CORFFORAETHOL CANOLBARTH CYMRU**

**4ydd Gorffennaf 2022**

**ADRODDIAD Y SWYDDOG MONITRO**

**Teitl yr Adroddiad: Penodi Aelodau Cyfetholedig i Is-bwyllgorau Cyd-bwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru**

| | |
|---|---|
| **Pwrpas yr Adroddiad** | **I Benodi Aelodau Cyfetholedig i Is-bwyllgorau Cyd-bwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru** |
| **Y Penderfyniad a Geisir:**<br><br>**Argymhellir bod yr Aelodau'n:**<br><br>• **Penodi fel Aelodau Cyfetholedig i Gyd-bwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru yr unigolion neu'r deiliaid swyddi a nodir yn y Tabl yn adran 4 yr adroddiad.**<br>• **Awdurdodi'r Swyddog Monitro i dderbyn a phenodi'r enwebiadau gan y Cynghorau Cyfansoddol ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (lle bo'n briodol) ar gyfer aelodaeth o'r Pwyllgor Craffu Llywodraethu ac Archwilio, y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a'r Pwyllgor Safonau fel Aelodau Cyfetholedig o Gyd-bwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru ar yr amod bod y penodiadau hynny'n cael eu hadrodd i'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol yn ei gyfarfod nesaf.**<br>• **Awdurdodi'r Swyddog Monitro i dderbyn (a phenodi fel Aelodau Cyfetholedig) newidiadau i aelodaeth yr Is-bwyllgorau a hysbysir yn ysgrifenedig i'r Swyddog Monitro ar yr amod bod y penodiadau hynny yn cael eu hadrodd i'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol yn ei gyfarfod nesaf.** | |
| **Awdur yr Adroddiad** | Clive Pinney |
| **Swyddog Cyllid** | Stephen Johnson (Swyddog Adran 151) |
| **Swyddog Cyfreithiol** | Clive Pinney (Swyddog Monitro) |

**Cefndir:**

1. Creodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("Deddf LGE") y fframwaith ar gyfer mecanwaith cyson i gydweithredu rhanbarthol rhwng awdurdodau lleol drwy Gyd-bwyllgorau Corfforaethol. Mae'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau yn darparu ar gyfer sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforaethol Canolbarth Cymru drwy Reoliadau ac yn ei gyfarfod cyntaf ar 25ain Ionawr 2022, sefydlwyd y Cyd-bwyllgor Corfforaethol, cymeradwywyd cyllideb ar gyfer 2022/23 a chymeradwywyd Rheolau Sefydlog y byddai Cyfansoddiad ffurfiol yn cymryd eu lle maes o law.

2. Yn ei gyfarfod cyntaf ar 25ain Ionawr 2022, sefydlodd y Cyd-bwyllgor Corfforaethol 3 is-bwyllgor, sef (a) yr Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol, (b) Datblygu Economaidd Rhanbarthol (“Is-bwyllgor Bargen Twf Canolbarth Cymru”) ac (c) yr Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol. Ac eithrio Is-bwyllgor Bargen Twf Canolbarth Cymru, nid yw aelodaeth o'r Is-bwyllgorau hynny wedi'i nodi yn y Cylch Gorchwyl.

3. Yn gynharach yn y cyfarfod hwn, gofynnwyd i'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol ystyried a chymeradwyo Cyfansoddiad drafft a oedd yn cynnwys Cylch Gorchwyl ar gyfer pob Is-Bwyllgor ac a gymeradwywyd hefyd

4. Paratowyd yr adroddiad hwn ar y sail bod y Cylch Gorchwyl hwnnw wedi'i gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor Corfforaethol a gofynnir nawr i'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol ystyried a phenodi fel Aelodau Cyfetholedig Cyd-bwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru yr unigolion neu'r deiliaid swyddi a nodir yn y tabl canlynol:

| **Is-Bwyllgor** | **Enw'r Aelod Cyfetholedig** | **Sefydliad** | **Swydd** |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **(a) Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol** | Y Cynghorydd Jackie Charlton<br><br>Y Cynghorydd David Selby<br><br>N arall<br><br>Y Cynghorydd Keith Henson<br><br>Y Cynghorydd Clive Davies<br><br>N Arall | Cyngor Sir Powys<br><br>Cyngor Sir Powys<br><br>Powys CC<br><br>Cyngor Sir Ceredigion<br><br>Cyngor Sir Ceredigion<br><br>Ceredigion CC | Aelod Cabinet ar gyfer Powys Wyrddach<br><br>Aelod Cabinet ar gyfer Powys Fwy Llewyrchus<br><br><br><br>Plaid Cymru<br><br>Plaid Cymru |
| **(b) Datblygu Economaidd Rhanbarthol (“Is-Bwyllgor Bargen Twf Canolbarth Cymru”)** | Y Cynghorydd James Gibson-Watt<br><br>Y Cynghorydd David Selby<br><br>Y Cynghorydd Matthew Dorrance | Cyngor Sir Powys<br><br>Cyngor Sir Powys<br><br>Cyngor Sir Powys | Arweinydd ac Aelod Cabinet ar gyfer Powys Agored a Thryloyw<br><br>Aelod Cabinet ar gyfer Powys Fwy Llewyrchus<br><br>Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet ar gyfer Powys Decach |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Y Cynghorydd Amanda Jenner | Cyngor Sir Powys | Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig |
| | Y Cynghorydd Aled Davies | Cyngor Sir Powys | Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig |
| | Y Cynghorydd Bryan Davies | Cyngor Sir Ceredigion | Arweinydd y Cyngor |
| | Y Cynghorydd Clive Davies | Cyngor Sir Ceredigion | Plaid Cymru |
| | Y Cynghorydd Keith Henson | Cyngor Sir Ceredigion | Plaid Cymru |
| | Y Cynghorydd Catrin Davies | Cyngor Sir Ceredigion | Plaid Cymru |
| | Y Cynghorydd Matthew Vaux | Cyngor Sir Ceredigion | Plaid Cymru |
| **(c) Yr Is-bwyllgor Cynllunio Datblygiad Strategol** | Y Cynghorydd Jake Berriman | Cyngor Sir Powys | Aelod Cabinet ar gyfer Cysylltu Powys |
| | N Arall | Cyngor Sir Powys | |
| | N Arall | Cyngor Sir Powys | |
| | Y Cynghorydd Clive Davies | Cyngor Sir Ceredigion | Plaid Cymru |
| | N Arall | Cyngor Sir Ceredigion | |
| | N Arall | Cyngor Sir Ceredigion | |
| | Y Cynghorydd Gareth Ratcliffe (I'w gadarnhau) | Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | |
| | N Arall | Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | |

- **Penodiadau i Is-bwyllgorau Eraill Cyd-bwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru**

5.1 Wrth gymeradwyo'r Cyfansoddiad yn gynharach yn y cyfarfod, mae'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol wedi cytuno i sefydlu'r Is-bwyllgorau ychwanegol canlynol:

- Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
- Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.
- Is-Bwyllgor Safonau

5.2 Nodir Cylch Gorchwyl pob un o'r Is-bwyllgorau hynny yn adran 5 y Cyfansoddiad. Roedd Cylch Gorchwyl pob Is-bwyllgor yn nodi aelodaeth pob Is-Bwyllgor ac wrth gwrs hyd nes bod y Cyfansoddiad wedi'i gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor Corfforaethol, nid oedd yn bosibl gofyn am yr enwebiadau priodol gan Gyngor Sir Powys, Cyngor Sir Ceredigion nac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Er mwyn sicrhau bod yr is-Bwyllgorau hyn yn weithredol cyn gynted â phosibl, gofynnir am awdurdod dirprwyedig gan y Cyd-bwyllgor Corfforaethol i'r Swyddog Monitro dderbyn a phenodi'r enwebiadau gan y Cynghorau Cyfansoddol ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (lle bo'n briodol) ar gyfer aelodaeth o'r Pwyllgor Craffu Llywodraethu ac Archwilio, y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a'r Pwyllgor Safonau fel Aelodau Cyfetholedig Cyd-bwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru ar yr amod bod y penodiadau hynny'n cael eu hadrodd i'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol yn ei gyfarfod nesaf

**Effeithiau Ariannol:**

6. Bydd unrhyw gostiau ychwanegol yn cael eu hariannu o gyllideb flynyddol MWCJC.

**Asesiad Effaith Integredig:**

7. Mae’r Cyd-bwyllgor Corfforaethol yn ddarostyngedig i’r Ddeddf Cydraddoldeb (Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a’r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol), Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 a Mesur y Gymraeg (Cymru), ac mae’n rhaid iddo wrth arfer eu swyddogaethau, roi sylw dyledus i'r angen i:

- **Ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ac ymddygiad arall a waherddir gan y Deddfau.**
- **Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.**
- **Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.**
- **Sicrhau canlyniadau gwell i’r bobl hynny sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol**
- **Ystyried cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg**
- **Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**
- **Sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb beryglu gallu cenedlaethau’r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain.**

8. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru gyflawni datblygu cynaliadwy. Mae datblygu cynaliadwy yn golygu’r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy gymryd camau, yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy, gyda’r nod o gyflawni’r ‘nodau llesiant’.

9. Nid oes angen Asesiad Effaith Integredig ar gyfer yr adroddiad hwn gan fod deddfwriaeth yn sail i sefydlu'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol a bod yr adroddiad hwn i sefydlu trefniadau llywodraethu yn unol â deddfwriaeth. Bydd yn cael ei adolygu'n barhaus gydag unrhyw adroddiadau yn y dyfodol yn ystyried a fydd angen ystyried effeithiau.

**Effeithiau ar y Gweithlu:**

10. Nid oes unrhyw effeithiau ar y gweithlu yn gysylltiedig â’r adroddiad hwn.

**Effeithiau Cyfreithiol:**

1311. Gellir cefnogi'r Argymhellion o safbwynt cyfreithiol

**Ymgynghori:**

12. Nid oes angen ymgynghori ynghylch yr adroddiad hwn.

**Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig:**

13. I sicrhau bod trefniadau llywodraethu priodol yn eu lle i’r Cyd-bwyllgor Corfforaethol wneud penderfyniadau ac y ceir cydymffurfio â’r gofynion deddfwriaethol sy’n berthnasol i’r Cyd-bwyllgor Corfforaethol.

**Gweithredu'r Penderfyniad:**

14. Cynigir gweithredu'r penderfyniad hwn ar unwaith

This page is intentionally left blank